CYNGOR IECHYD CYMUNED HYWEL DDA

Eich "Corff Gwarchod GIG" lleol yn roi llais i gleifion yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Beth ydyn ni'n ei wneud i chi?

- Ystyried materion iechyd o safbwynt y cyhoedd
- Ymweld â gwasanaethau lleol i glywed gan gleifion a'r rhai sy'n gofalu amdanynt am eu profiadau
- Edrych ar gynlluniau a chynigion GIG lleol a chenedlaethol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion cymunedau lleol
- Cyfarfod yn rheolaidd â rheolwyr y GIG
- Siarad â phobl yn eu cymunedau am eu barn a'u profiadau o wasanaethau'r GIG
- Darparu gwasanaeth eirioli gwynion cyfrinachol ac annibynnol am ddim i bobl sydd eisiau cefnogaeth i godi pryder

A fu angen i'ch plentyn fynd i'r ysbyty yn ystod y pandemig?

Mae gennym ddiddordeb yng ngofal iechyd pawb ac rydym am wybod sut brofiad yw pan fydd eich plentyn yn mynychu'r ysbyty. Pan ddefnyddiwn y gair plentyn, rydym yn sôn am unrhyw un o dan 18 oed. Os yw'ch plentyn wedi'i dderbyn i'r ysbyty, wedi mynychu apwyntiad claf allanol, wedi bod i'r adran Damweiniau ac Achosion Brys neu rywle arall yn yr ysbyty, hoffem wybod sut brofiad oedd hynny.



Rydym yn awyddus i glywed am blant sy'n mynychu'r ysbyty dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf, rhwng mis Hydref 2021 a mis Mawrth 2022. Rydym am wybod sut brofiad oedd hynny? Beth oedd yn dda? Beth oedd yn wael? Beth allai fod wedi gwella'r profiad?

Efallai y bydd yn rhaid i chi fynd â'ch plentyn i'r ysbyty fwy nag unwaith yn ystod misoedd yr hydref / gaeaf, felly cwblhewch ein harolwg gymaint o weithiau ag y dymunwch. Os yw'ch plentyn eisiau rhoi ei farn neu'i safbwynt ei hun, mae gennym ffurflen arolwg y gall ei llenwi, cysylltwch â ni fel y gallwn anfon ffurflen atoch, os gwelwch yn dda. Bydd ein harolygon yn cael eu cyhoeddi'n fuan iawn, a byddwch yn gallu eu cwblhau mewn amryw o ffyrdd sydd fwyaf addas i chi. Byddwn yn hysbysebu ar-lein trwy ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol, ar ein gwefan, neu os yw'n well gennych gallwch ddefnyddio'r Côd QR neu lenwi un o'n copïau caled. Dilynwch ni neu ychwanegwch ni at eich ffefrynnau, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a gallu rhoi gwybod i ni am eich profiad o'r GIG.

Hoffech chi siarad â ni?

Rydym yn gwrando ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud.

A hoffech chi i ni "alw heibio" i un o'ch cyfarfodydd, grwpiau hobi neu gynulliad, am 10 munud yn unig, i gyflwyno ein hunain a dweud wrthych am y gwaith rydym yn ei wneud a pham fod gennym gymaint o ddiddordeb mewn cael gwybod am **EICH** profiadau chi o ofal a gwasanaethau'r GIG.



Rydym yn cynrychioli <u>POB</u> claf sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Helpwch ni i'ch helpu chi. Cysylltwch â ni heddiw.

Rhowch gipolwg ar ein harolygon byw a dywedwch wrthym eich barn a sut rydych chi'n teimlo am wasanaethau'r GIG.

www.hywelddachc.wales

A fyddai'n well gennych gael copi caled o'n harolygon neu'n cylchlythyrau?



Rhowch wybod i ni os hoffech dderbyn cyflenwad o arolygon neu gylchlythyrau, a byddwn yn trefnu iddynt gael eu hanfon atoch.

Rydyn ni yma i wrando arnoch CHI!

A oes arnoch angen cymorth i wneud cwyn neu godi pryder am unrhyw agwedd ar ofal neu driniaeth y GIG a gawsoch?

Mae'n bosib y gall ein Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion eich helpu. Cysylltwch ag aelod o'r tîm ar:

Ffôn: 01646 697610

e-bost: Complaints.Advocacy2@waleschc.org.uk

Hyd yn oed os nad ydych yn dymuno gwneud cwyn, gallwch ein diweddaru ar unrhyw agwedd ar eich gofal neu driniaeth yn ddienw neu rannu eich stori claf gyda ni.



E-bostiwch ni:

hyweldda@waleschc.org.uk

Ffoniwch ni:

01646 697610



ysgrifennwch atom:

Ystafell 5, Llawr 1af, Tŷ Myrddin, Caerfyrddin ,

SA31 1LP

Beth am ymuno â ni yn ein cyfarfodydd sydd ar y gweill

Cysylltwch â ni am wahoddiad TEAMS i ymuno.

Pwyllgor Lleol Caerfyrddin	30 Tachwedd 2021
Pwyllgor Lleol Ceredigion	27 Ionawr 2022
Pwyllgor Lleol Sir Benfro	24 Tachwedd 2021

www.hywelddachc.Cymru **@HywelDdaCHC**